***Deon Llwyddiant Myfyrwyr***

Bydd y Deon Llwyddiant Myfyrwyr yn gyfrifol ac yn atebol i'r Rhag Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (ESE), ac yn gweithio gyda nhw ar gyflwyno strategol yn ymwneud â deilliannau myfyrwyr llwyddiannus i'r holl ddysgwyr ar draws holl ddarpariaeth addysg y Brifysgol.  Bydd y rôl yn rhan o Uwch Dîm Arwain ESE ac yn gweithio i gyflwyno strategaeth y Brifysgol a mesurau llwyddiant y Brifysgol ar gyfer addysg a phrofiad myfyrwyr.

**Prif Ddyletswyddau**

- Darparu uwch arweinyddiaeth academaidd ar gyfer 'llwyddiant myfyrwyr i bawb', gan gydweddu â blaenoriaethau sefydliadol, sy'n cyd-fynd â'r agenda ehangu cyfranogiad, gyda strategaethau sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr i sicrhau deilliannau llwyddiannus <u>i bob dysgwr</u>, gan gynnwys pontio, dilyniant academaidd, dyfarniad, cadw a chyflogadwyedd.
- Cydweithio gyda Deoniaid Addysg y Colegau, y Deon Ymchwil Ôl-raddedig a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella llwyddiant myfyrwyr trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau pontio, llwyddiant a chymorth myfyrwyr i hyrwyddo priodoleddau graddedigion Caerdydd a gyda'r rheini, deilliannau myfyrwyr, ynghyd â meithrin diwylliant myfyriwr-ganolog sy'n blaenoriaethu cynhwysiant, perthyn a thegwch ac sy'n bodloni anghenion corff amrywiol o fyfyrwyr.
- Gweithredu fel y prif arweinydd addysg ar gyfer cynhwysiant a chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan weithio gydag eraill i hyrwyddo ac ymgorffori arfer da ledled y ddarpariaeth addysg.

**Cyfrifoldebau**

1. Goruchwyliaeth strategol o'r portffolio addysg yn y ffordd y mae'n berthnasol i lwyddiant ar gyfer pob dysgwr, ledled y Brifysgol;
2. Gweithio gyda data / tystiolaeth i fonitro a mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn boddhad, deilliannau a chyflogadwyedd myfyrwyr a sicrhau llwyddiant i bawb.
3. Datblygu a gweithredu strategaethau pontio, llwyddiant a chymorth myfyrwyr i hyrwyddo priodoleddau graddedigion Caerdydd a gyda'r rheini, deilliannau myfyrwyr, ynghyd â meithrin diwylliant myfyriwr-ganolog sy'n blaenoriaethu cynhwysiant, perthyn a thegwch;
4. Cyfrannu at weithgareddau ar lefel y sefydliad, gan gynnwys darparu arweinyddiaeth academaidd ar brosiectau a themâu traws-brifysgol megis gweithio gyda thimau lles myfyrwyr ac eraill i gyflwyno model newydd ar gyfer cymorth personol a sicrhau pontio effeithiol trwy daith ddysgu'r myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogiad.
5. Gweithio gyda'r Deon Portffolio, Cwricwlwm ac Arloesi, a rolau allweddol eraill yn y sefydliad i hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sicrhau bod y

fframwaith cynhwysiant sefydliadol ar gyfer addysg wedi'i wreiddio ar draws yr holl raglenni, prosesau a gwasanaethau cymorth.

6. Cyd-arwain gyda'r Deon Portffolio, Cwricwlwm ac Arloesedd ar ymagwedd y Brifysgol at gyflogadwyedd myfyrwyr, gan gydweithio â Deoniaid y Colegau a rolau allweddol eraill ar ddatblygiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol fel y nodir yn Strategaeth y Brifysgol.
7. Gweithio mewn partneriaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'r tîm sabothol, a'r corff myfyrwyr ehangach, i sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn cael eu cyd-greu'n effeithiol i ddiwallu anghenion corff astudio amrywiol a sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed, yn cael gwrandawiad ac y gweithredir arno;
8. Gweithio gyda'r Profost a rolau allweddol ym maes EDI i sicrhau bod gweithgareddau addysg a phrofiad myfyrwyr yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth;
9. Gweithio mewn partneriaeth â thimau gwasanaethau proffesiynol allweddol gan gynnwys Bywyd Myfyrwyr, Iechyd a Lles Myfyrwyr, Dyfodol Myfyrwyr, a'r Academi Dysgu ac Addysgu
10. Cynnal ymwybyddiaeth gyfredol o ddatblygiadau yn yr amgylchedd allanol a allai effeithio ar faes Llwyddiant Myfyrwyr y sefydliad;
11. Sicrhau bod themâu allweddol strategaeth y Brifysgol (e.e. cyflogadwyedd, cynwysoldeb, cynaladwyedd) yn cael eu gwreiddio ar draws y portffolio o raglenni a chwricwla ledled y sefydliad. Sefydlu a chynnal cysylltiadau gwaith da gyda sefydliadau allanol gan gynnwys Medr, Prifysgolion Cymru ac Advance HE;
12. Cynrychioli'r Rhag Is-Ganghellor ESE neu'r Brifysgol, a bod yn aelod gweithgar a chynhwysol o'r Uwch Dîm Arwain ar gyfer Addysg, a chyflawni a chyfrannu at brosiectau, grwpiau a phrosesau penodol eraill y Brifysgol (e.e. IPP) yn unol â chais y Rhag Is-Ganghellor, ESE ac yn unol â blaenoriaethau ESE a'r Brifysgol.

**Cymwyseddau, Gallu a Phrofiad Allweddol**

- Hanes academaidd cryf o arwain newid sylweddol ac effeithiol mewn dysgu, addysgu a gwella profiad myfyrwyr
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymchwil ac ymarfer addysgeg, mewn perthynas â chynhwysiant, taith y myfyriwr a deilliannau dysgwyr
- Hanes diamheuol o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i wella deilliannau myfyrwyr, a lleihau anghydraddoldebau mewn lleoliad addysg
- Profiad amlwg o arweinyddiaeth academaidd a'r gallu i feddwl yn strategol a meithrin gweledigaeth gyffredin ymhlith cydweithwyr academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol
- Hanes diamheuol o feithrin perthnasoedd gwaith mewnol ac allanol effeithiol a chynhyrchiol

- Ymwneud â chymunedau proffesiynol perthnasol sy'n gysylltiedig â deilliannau myfyrwyr, arfer cynhwysol a lles a chymorth i fyfyrwyr
- Dealltwriaeth dda o ddatblygiadau ym maes dysgu ac addysgu a phrofiad myfyrwyr o fewn Addysg Uwch, ar draws ystod o ddisgyblaethau pwnc
- Meddu ar Gymrodoriaeth Uwch Advance HE, neu barodrwydd i gyflawni hyn yn y tair blynedd nesaf

**Priodoleddau a Sgiliau**

- Gallu amlwg yn arweinydd tîm, a'r gallu i ysbrydoli a chymell pobl eraill
- Sgiliau cyd-drafod da, y gallu i ysgogi eich hun gyda menter, hyblygrwydd, meddwl agored ac agwedd gall-wneud
- Arddull reoli fyfyriol, gynhwysol a cholegol sy'n gallu sefydlu perthnasoedd ar draws sbectrwm eang o randdeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr, myfyrwyr a grwpiau allanol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig, sgiliau rhwydweithio a hyfforddi tîm

Bydd y rôl hon yn 0.8 CALl am dymor penodol o dair blynedd. Bydd deiliad y swydd yn cael lwfans blynyddol di-bensiwn o £6,000.